## RHAGOLWG

## Gellir dod o hyd i ddogfennau ategol perthnasol dan "Busnes y Cynulliad" "Dogfennau a Osodwyd" sydd, fel arfer, yn cael eu gosod ar y wefan 3 diwrnod gwaith cyn y cyfarfod llawn perthnasol.

## [Hysbyswyd gan y Trefnydd mewn datganiad i'r cynulliad Dydd Mawrth 28 Mawrth 2006]

**Dydd Mawrth 4 Ebrill a dydd Mercher 5 Ebrill 2006**

***Toriad y Pasg 10 – 28 Ebrill 2006***

**Dydd Mawrth 2 Mai a dydd Mercher 3 Mai 2006**

**Dydd Mawrth 9 Mai a dydd Mercher 10 Mai 2006**

# Dydd Mawrth 4 Ebrill 2006

- **Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru (45 munud)**

- **Y Datganiad Busnes (10 munud)**

- **Datganiad gan y Trefnydd: Yr Adolygiad o Ddiogelu Plant sy’n Agored i Niwed (30 munud)**

- **Cynnig i Gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 24.25 (1 funud)**

    - **Rheoliadau’r Ardrethi Annomestig (Newid Rhestrau ac Apelau) (Diwygio) (Cymru) 2006**

    Mae’r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau’r Ardrethi Annomestig (Newid Rhestrau ac Apelau) (Cymru) 2005 sy’n pennu’r rheolau ar gyfer apelio yn erbyn prisiad hereditament (eiddo neu uned y telir ardreth annomestig arno) a newid y Rhestr Ardrethi Annomestig yn sgil hynny. Mae’r Rheoliadau hyn yn cywiro nifer o wallau drafftio yn y Rheoliadau a enwir. Nid yw’r gwelliannau’n effeithio ar bwrpas bwriedig Rheoliadau 2005.

- **Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau a Symiau at Anghenion Personol) (Diwygio) (Cymru) 2006 (15 munud)**

Mae effaith driphlyg i’r Rheoliadau hyn. Yn gyntaf, maent yn cynyddu, yn unol â chwyddiant, y terfynau cyfalaf a ddefnyddir wrth asesu gallu person i dalu am y llety a drefnwyd ar ei gyfer drwy gynyddu’r terfynau cyfalaf uchaf o £21,000 i £21,500 (cynnydd o 2.4%) a’r terfyn cyfalaf isaf o swm sylweddol uwch na’r lefel chwyddiant, o £14,750 i £16,000 (cynnydd o 8.5%). Yn ail, mae’r Rheoliadau hyn yn adlewyrchu rhai newidiadau i fudd-daliadau sy’n gysylltiedig ag incwm, a fydd yn dod i rym o fis Ebrill 2006, trwy ddiystyru rhai ffactorau wrth asesu gallu person i dalu am lety. Maent hefyd yn ceisio cynnwys partneriaid sifil yn y rhestr o “berthnasau atebol” a gynhwysir yn y Rheoliadau. Yn olaf, maent yn cynyddu’r swm wythnosol y gall awdurdodau lleol ragdybio y bydd ei angen ar berson sy’n derbyn gofal preswyl at ei anghenion personol o £19.10 i £20.00 yr wythnos (cynnydd o 4.7%).

- **Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Defaid a Geifr (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Cymru) 2006 (15 munud)**

Mae’r Gorchymyn hwn yn darparu ar gyfer gweinyddu a gorfodi Rheoliad Cyngor (EC) Rhif 21/2004 yng Nghymru sy’n sefydlu system ar gyfer adnabod a chofrestru defaid a geifr, gan ddiwygio Rheoliad (EC) Rhif 1782/2003 a Chyfarwyddebau 92/102/EEC a 64/432/EEC.

- **Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd am Geisiadau a Cheisiadau Tybiedig) (Diwygio Rhif 2) (Cymru) 2006 (15 munud)**

Bydd y Rheoliadau hyn yn cyflwyno trefn ffioedd newydd mewn perthynas â monitro caniatâd cynllunio ar gyfer safleoedd mwyngloddio a thirlenwi yng Nghymru. Amcan y drefn ffioedd newydd yw galluogi awdurdodau cynllunio lleol i adennill y costau sydd ynghlwm ag ymgymryd â'u swyddogaeth fonitro yn unol â gweithdrefnau arferion gorau mewn ffordd mor syml a chlir â phosibl. Bydd y drefn ffioedd yn seiliedig ar dâl fesul ymweliad a drefnir â safle er mwyn adennill costau cyfartalog gan gynnwys costau teithio. Y ffi a bennir yw £288 fesul ymweliad ar gyfer safleoedd sy'n cael eu gweithio a £96 fesul ymweliad ar gyfer safleoedd nad ydynt yn cael eu gweithio.

- **Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Twbercwlosis (Cymru) 2006 (15 munud)**

  Mae'r Gorchymyn hwn, sy'n berthnasol i Gymru yn unig, yn dirymu ac yn ailddeddfu Gorchymyn Twbercwlosis (Cymru a Lloegr) 1984 gyda newidiadau. Mae hefyd yn cyflwyno gorfodaeth i brofi gwartheg dros 15 mis oed o blwyfi lle cânt eu profi bob blwyddyn neu bob 2 flynedd, gyda rhai eithriadau, cyn eu symud.

# Dydd Mercher 5 Ebrill 2006

- **Cwestiynau Llywodraeth Leol i Sue Essex, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus (30 munud)**

- **Cwestiynau i Jane Davidson, y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes (30 munud)**

- **Statement by the Business Minister: Accessible Venues Guidance (30 munud)**

- **Dadl ar Adroddiad yr Adolygiad Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio o**

**Gamddefnyddio Sylweddau (60 munud)**

- **Y Ddadl Fer (30 munud)**

## Dydd Mawrth 2 Mai 2006

- **Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru (45 munud)**

- **Y Datganiad Busnes (10 munud)**

- **Motion to approve under Standing Order 24.25 ( 1munud)**

  Ø **The Education (School Day and School Year)(Wales) (Amendment) Regulations 2006**

  Ø **The Plant Breeders Rights (Discontinuation of rior Use Exemption) (Wales) Order 2006**

- **Slot wedi'i gadw ar gyfer is-ddeddfwriaeth (30 munud)**

- **Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) 2006 (10 munud)**

Mae'r Rheoliadau hyn yn ymwneud â phwerau Cynulliad Cenedlaethol Cymru o safbwynt cyflwyno darpariaethau yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau perthnasol yng Nghymru (hy cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol) ymgorffori darpariaethau penodol yn eu rheolau sefydlog sydd yn ymwneud â'u staff, cyfarfodydd a'u trafodion. Byddai'r rhain yn cynnwys darpariaethau

sy'n diogelu i ryw raddau Swyddogion Monitro a Phrif Swyddogion Cyllid rhag cael eu diswyddo. Dim ond Penaethiaid Gwasanaethau Taledig sy'n cael eu diogelu i'r graddau hyn ar hyn o bryd. Yn dilyn gweithredu Deddf Llywodraeth Leol 2000 cafodd rôl Swyddogion Monitro a Phrif Swyddogion Cyllid ei datblygu er mwyn cynnwys dyletswydd i roi cyngor ynghylch a oedd penderfyniadau penodol a wnaed yn groes i'r fframwaith polisi neu'n groes i'r gyllideb neu heb fod yn gwbl unol â hi. Byddai diogelu'r swyddogion hyn, fel y diogelir Penaethiaid Gwasanaethau Taledig ar hyn o bryd, yn eu diogelu rhag unrhyw ymgais i'w diswyddo ar sail wleidyddol, ar ôl iddynt herio penderfyniadau'r Cyngor.

- **Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (Cychwyn Rhif 8 a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2006 (10 munud)**

Mae'r Gorchymyn hwn yn dwyn i rym ddarpariaethau penodol Rhan II o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 ar 3 Mai 2006 o ran Cymru. Mae hefyd yn rhoi trefniadau trosiannol ar waith mewn perthynas â'r gweithdrefnau i'w mabwysiadu wrth brosesu gorchmynion perthnasol (a ddiffinnir yn Neddf 2000) a wnaed neu y cyflwynwyd cais amdanynt cyn i adran 47 o Ddeddf 2000 ddod i rym. Mae'r Gorchymyn hefyd yn gweithredu rhai diwygiadau canlyniadol a chysylltiedig i Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, Deddf Priffyrdd 1980 a deddfwriaeth sylfaenol arall.

- **Dadl wedi'i henwebu gan Blaid Cymru (45 munud)**

- **Dadl ar Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau Ymddygiad (60 munud)**

**<u>Dydd Mercher 3 Mai 2006</u>**

- **Cwestiynau i Edwina Hart, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio (30 munud)**

- **Cwestiynau i Andrew Davies, y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth (30 munud)**

- **Cwestiynau i Jane Hutt, y Trefnydd, yn unol â Rheol Sefydlog 6.28 ac fel y nodir yn y rhestr o gyfrifoldebau Gweinidogion (30 munud)**

- **Cynnig i ddirprwyo swyddogaethau o dan Ran 3 o Ddeddf Ymddygiad Gwrth-Gymdeithasol 2003 i Brif Weinidog Cymru (10 munud)**

- **Proposal to debate the following 2 items together but with separate votes(15 munud)**

    - **Motion to approve The Education (Parenting Orders)(Wales) Regulations 2006**

    - **Motion to approve The Anti Social Behaviour Act 2003 (Commencement No 50 (Wales) Order 2006**

- **Dadl ar gynnig o dan Reol Sefydlog 31 (cynhaliwyd pleidlais ar 28 Chwefror 2006) (45 munud)**

- **Y Ddadl fer (30 munud)**

# Dydd Mawrth 9 Mai 2006

- **Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru (45 munud)**

- **Y Datganiad Busnes (10 munud)**

- **Motion to approve The Animal By-Products (Wales) Regulations 2006 (15 munud)**

- **Motion to approve The Education (National Curriculum for Wales) (Disapplication of Science at Key Stage 4) Regulations 2006 (15 munud)**

- **Motion to approve changes to Standing Order 23 (5 munud)**

- **Dadl ar ESTYN – Adroddiad Prif Arolygydd Ysgolion Ei Mawrhydi (60 munud)**

# Dydd Mercher 10 Mai 2006

- **Cwestiynau Cyllid i Sue Essex, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus (30 munud)**

- **Cwestiynau i Carwyn Jones, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad (30 munud)**

- **Cynnig i ddirprwyo swyddogaethau o dan Adran 86 o Ddeddf Cydraddoldeb 2006 i Brif Weinidog Cymru (15 munud)**

- **Dadl ar Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Lleol ym mywyd cymunedau (60 munud)**

- **Y Ddadl fer (30 munud)**